Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Wasanaethau Hamdden – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2088A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cyrraedd ei nod allweddol sef cadw canolfannau hamdden ar agor ond mae cyfle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n well a chryfhau ei drefniadau i'w sicrhau ei hun bod ei gontract gyda GLL yn rhoi gwerth am arian.


Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 5

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi cynnal ei ddarpariaeth hamdden ond byddai o fudd iddo bennu blaenoriaethau eglur ar gyfer ei wasanaethau hamdden ac adolygu ei gontract gyda GLL i sicrhau ei fod o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a'i amcanion llesiant 8

Bu gwendidau o ran rheoli'r contract ac er bod y Cyngor wedi cryfhau trefniadau, mae cyfle o hyd i'w gwella ymhellach 9

Gallai trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad y Cyngor gael eu gwella i helpu'r Cyngor i'w sicrhau ei hun bod y contract gyda GLL yn gynaliadwy ac yn rhoi gwerth am arian 11

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio – Canfyddiadau Archwiliadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 15

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

- bennu eu hamcanion llesiant; a
- chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Yn ogystal â dyletswyddau dan Ddeddf LlCD, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswyddau sy'n ymwneud ag archwilio pa un a oes gan gynghorau drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am **arian**) dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden, ym mis Rhagfyr 2015.[1]

4 Er i ni gyhoeddi'r adroddiad hwnnw yn 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gontract 15 mlynedd newydd, a ddisgrifir fel trefniant partneriaeth, gyda Greenwich Leisure Limited (GLL). Dechreuodd hwn ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r contract yn cwmpasu wyth canolfan hamdden a chafodd ei gaffael trwy broses gaffael gystadleuol.

5 Roedd yr adolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiwn: **a yw dull y cyngor o ddarparu gwasanaethau hamdden o gymorth i gyflawni ei amcanion llesiant, ac yn rhoi gwerth am arian?**

6 Canolbwyntiodd ein gwaith ar y gwasanaethau hamdden hynny a ddarperir gan GLL a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor fel a ddisgrifir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, Cyflawni Uchelgais Prifddinas, yn arbennig yr Amcan Llesiant: 'Cymunedau diogel, hyderus a grymusol' a'r flaenoriaeth ar gyfer 2019-20 i gefnogi chwaraeon, hamdden, diwylliant a mannau gwyrdd.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaed gennym cyn pandemig COVID-19.

1 Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden, Adroddiad Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015

# Yr hyn a ganfuom

8 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi cyrraedd ei nod allweddol sef cadw canolfannau hamdden ar agor ond mae cyfle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n well a chryfhau ei drefniadau i'w sicrhau ei hun bod ei gontract gyda GLL yn rhoi gwerth am arian.

9 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cynnal ei ddarpariaeth hamdden ond byddai o fudd iddo bennu blaenoriaethau eglur ar gyfer ei wasanaethau hamdden ac adolygu ei gontract gyda GLL i sicrhau ei fod o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a'i amcanion llesiant;
- bu gwendidau o ran rheoli'r contract ac er bod y Cyngor wedi cryfhau trefniadau, mae cyfle o hyd i'w gwella ymhellach; a
- gallai trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad y Cyngor gael eu gwella i helpu'r Cyngor i'w sicrhau ei hun bod y contract gyda GLL yn gynaliadwy ac yn rhoi gwerth am arian.

10 Caiff ein canfyddiadau manwl eu nodi yn adran nesaf yr adroddiad.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer Gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a ganfuwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Dylai'r Cyngor:**<br>CagG 1: Sefydlu strategaeth, gweledigaeth a blaenoriaethau eglur ar gyfer ei wasanaethau hamdden sy'n ymgorffori ystyriaeth i Ddeddf LlCD. |
| CagG 2: Cynnal adolygiad o fanyleb gwasanaethau contract GLL i sicrhau ei bod o gymorth i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer ei wasanaethau hamdden a'i amcanion llesiant ehangach. |
| CagG 3: Ystyried sut y gall gryfhau'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy trwy'r gwasanaethau a ddarperir gan GLL, gan gynnwys:<br>• mabwysiadu dull mwy strategol o gydweithio sy'n sicrhau bod yr holl sefydliadau gan gynnwys Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro/Iechyd y Cyhoedd a'r Trydydd Sector yn rhan o gynllunio a datblygu gwasanaethau GLL a gwasanaethau hamdden eraill ar lefel leol a rhanbarthol.<br>• mynd ati ymhellach i integreiddio'r broses o gynllunio a darparu Gwasanaethau Hamdden GLL â chyrff cyhoeddus eraill a gwasanaethau eraill y Cyngor, megis Addysg a Gofal Cymdeithasol.<br>• gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u cynnwys yn y broses o ddatblygu a darparu gwasanaethau hamdden GLL a gwasanaethau hamdden eraill i sicrhau eu bod yn cynrychioli anghenion a dyheadau'r amrywiaeth lawn o gymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu. |
| CagG 4: Gwella'r trefniadau rheoli contract i sicrhau bod manyleb y contract yn cael ei monitro mewn modd cadarn a thryloyw. |
| CagG 5: Sicrhau bod y Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i ystyried risgiau ariannol a risgiau llesiant hirdymor y contract hamdden yn ei brosesau rheoli risgiau corfforaethol. |

**Cynigion ar gyfer gwella**

CagG 6: Gwella trefniadau adrodd i sicrhau bod aelodau'n cael cyfrif llawn ac amserol o berfformiad y contract sy'n cynnwys refeniw/gwariant.

.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cynnal ei ddarpariaeth hamdden ond byddai o fudd iddo bennu blaenoriaethau eglur ar gyfer ei wasanaethau hamdden ac adolygu ei gontract gyda GLL i sicrhau ei fod o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a'i amcanion llesiant

11 Ar y cyfan, mae'r Cyngor o'r farn bod y contract gyda GLL yn llwyddiannus. Mae wedi cyrraedd ei nodau gwreiddiol sef cadw'r holl ganolfannau hamdden ar agor, cyrraedd sefyllfa lle na roddir cymorthdaliadau erbyn mis Ebrill 2019 ac wedi hynny cael incwm net o'i gontract gyda GLL.

12 Ceir cyfeiriadau at rôl hamdden yng nghynllun corfforaethol y Cyngor – 'Cyflawni Uchelgais Prifddinas' (y Cynllun) i ategu ei amcanion llesiant. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor weledigaeth na strategaeth eglur sy'n disgrifio'n glir beth yw ei flaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn awr ac yn y dyfodol i helpu i roi arweiniad o ran y gwasanaethau a ddarperir gan GLL. Hefyd, nid yw'r Cyngor wedi nodi sut y mae ei ddull o ran gwasanaethau hamdden wedi'i fwriadu i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio i gyflawni ei amcanion llesiant, cyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol, a rhoi gwerth am arian.

13 Yn niffyg set glir o flaenoriaethau ar gyfer ei wasanaethau hamdden, ceir hefyd ddiffyg eglurder ymhlith rhanddeiliaid ynglŷn â beth yw'r blaenoriaethau hamdden penodol yng Nghaerdydd, a sut y gall rhanddeiliaid, gan gynnwys GLL, gydweithio i'w cyflawni. Canfuom nad yw'r Cyngor yn gallu dangos yn glir sut y mae cynlluniau GLL wedi'u hintegreiddio â chynlluniau cyrff cyhoeddus eraill.

14 Byddai'r Cyngor yn cael budd o bennu blaenoriaethau eglur ar gyfer ei wasanaethau hamdden ac adolygu ei gontract gyda GLL i sicrhau e fod o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a'i amcanion llesiant.

15 Mae Cynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd y Cyngor 2019-20 yn cynnwys cam gweithredu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau hamdden, ond deallwn fod hwn yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad ar hyn o bryd.

16 Canfuom enghreifftiau niferus o gydweithio, megis gyda Menter Caerdydd[2] a'r Urdd[3] i hyrwyddo gwersi nofio cyfrwng Cymraeg a chydag Uned Adsefydlu Niwrolegol Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i hybu cyfranogiad. Fodd bynnag, cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ganfuom bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r ffyrdd o weithio integreiddio, atal a chynnwys. Er enghraifft, tystiolaeth gyfyngedig a ganfuom o integreiddio â gwasanaethau eraill y Cyngor ac mae cyfleoedd pellach o archwilio'r posibiliadau ar gyfer cydweithio gyda chyrff allanol eraill.

[2] Cwmni gwasanaethau digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yw Menter Caerdydd.

[3] Mudiad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol sy'n darparu cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn iddynt wneud cyfraniadau cadarnhaol tuag at eu cymunedau yw Urdd Gobaith Cymru.

17 Yn ei adroddiad blynyddol yn 2018-19, mae GLL yn nodi bod cyfanswm yr ymweliadau â'i ganolfannau hamdden wedi cynyddu 3.9% ers y flwyddyn flaenorol. Gan hynny, mae'r contract yn helpu i gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor ond mae cyfle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n well a mesur y cyfraniad hwn ac adrodd arno'n fwy eang.

## Bu gwendidau o ran rheoli'r contract ac er bod y Cyngor wedi cryfhau trefniadau, mae cyfle o hyd i'w gwella ymhellach

18 Mae'r trefniadau allweddol sydd yn eu lle i fonitro a rheoli'r contract yn cynnwys:

- Bwrdd Cyswllt Prosiect (BCP), a fynychir gan gymysgedd o aelodau cabinet, staff GLL a staff y Cyngor. Cyfarfu'r BCP gyntaf ym mis Medi 2017 ac mae'n cwrdd bob chwarter. Mae'r BCP yn trafod perfformiad y contract, materion gweithredol arwyddocaol, ac unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau yn y dyfodol. Mae'r BCP yn cael cymysgedd o wybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â gweithrediad y contract.
- cyfarfodydd cyswllt contract rheolaidd rhwng GLL a staff monitro contractau'r Cyngor. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar faterion gweithredol.

19 Mae aelodau perthnasol o'r Cabinet, staff y Cyngor a staff GLL yn teimlo'u bod wedi datblygu perthynas weithio dda a ddisgrifir gan yr holl bartïon fel partneriaeth. Mae'r berthynas hon wedi esblygu ers dechrau'r contract ar 1 Rhagfyr 2016. Mae'n bwysig nodi mai contract ffurfiol yn hytrach na phartneriaeth ydyw, a ddylai gael ei adlewyrchu gan y modd y cymhwysir trefniadau rheoli contract y Cyngor.

20 Ym mis Ebrill 2018, rhoddodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor sgôr sicrwydd o 'Annigonol ac angen gwelliant mawr' ar y prosesau a'r gweithdrefnau a oedd yn eu lle mewn perthynas â chontract gwasanaethau GLL. Cododd adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol argymhelliad corfforaethol i'r Cyngor sicrhau bod mecanweithiau adrodd yn eu lle o ddechrau contract wrth ymrwymo i unrhyw drefniant cytundebol neu bartneriaeth. Roedd yr adroddiad yn ychwanegu bod angen gwella'r amgylchedd rheoli (corfforaethol a chyfarwyddiaethol) gan nad oedd yn darparu sicrwydd rhesymol bod yr holl risgiau lefel uchel yn cael eu rheoli'n ddigonol. Canfu hefyd fod diffyg rheolaethau monitro digonol yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg na fydd GLL yn cyflawni eu hamcanion, nac yn cyrraedd safonau perfformiad a thargedau ariannol a nodir yn y contract. Fe wnaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyfanswm o naw argymhelliad, gan gynnwys pump a oedd yn ymwneud â threfniadau llywodraethu a monitro.

21 Roedd ymateb y rheolwyr ym mis Tachwedd 2018 i'r adroddiad Archwilio Mewnol hwnnw'n rhoi sicrwydd bod yr argymhellion wedi cael sylw. Fodd bynnag, mae ein hadolygiad ni'n adleisio canfyddiadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a chanfu fod rhai o'r pryderon a nodwyd fel argymhellion gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dal i fodoli. Er enghraifft:

- rhaid i'r rheolwyr sicrhau bod risgiau a nodwyd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth;
- dilyn proses benderfynu effeithiol sy'n dangos yr opsiynau, y dewisiadau eraill a'r risgiau os ceisir gwyriad oddi wrth y Fanyleb Gwasanaethau;
- rhaid i adroddiadau rheoli ddarparu digon o wybodaeth i roi asesiad cywir o'r cynnydd a wnaed i hwyluso adolygiad o werth ychwanegol, gan gynnwys data y gellir ei gymharu â'r flwyddyn flaenorol/blynyddoedd blaenorol; a
- chyflwyno trefn lle darperir adroddiadau rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) i gynyddu effeithiolrwydd trefniadau monitro'r contract.

22 Ym mis Hydref 2018, penododd GLL reolwr contract a thîm rheoli sydd wedi'i leoli'n lleol i ddatblygu ei wybodaeth leol ymhellach a gwella cyfathrebu a pherfformiad. Mae hyn wedi helpu i gryfhau'r berthynas â'r Cyngor ac wedi darparu sicrwydd o ran eu bwriadu cyffredin i gydweithio i wella'r trefniadau rheoli contract a pherfformiad.

23 Penododd y Cyngor Reolwr Gweithredol newydd ar gyfer Datblygu Chwaraeon a Hamdden ym mis Gorffennaf 2019 i wella trosolwg a rheolaeth ar berfformiad y contract ac alinio'r gwasanaeth yn well ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

24 Canfuom y gellid gwella trefniadau rheoli contract trwy fynd ati'n fwy manwl i fonitro'r modd y cyflawnir manyleb y contract a hynny mewn ffordd dryloyw a systematig. Canfu ein hadolygiad nad yw agweddau ar berfformiad yn cael eu monitro'n gyson yn unol â'r fanyleb gwasanaethau. Er enghraifft, nid yw'r Cyngor wedi pennu targedau ar gyfer y lefelau cyfranogiad iau a ddymunir nac ar gyfer y rhai â'r nodweddion cymdeithasol a nodir yn y fanyleb gwasanaethau. Pwysleisiodd Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant bwysigrwydd cyflawni amcanion cymdeithasol, megis taliadau is ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a mwy o fynediad ar gyfer cwsmeriaid difreintiedig yn ei adroddiad y mis Ionawr 2019.

25 Mae'r Fanyleb Gwasanaethau'n ei gwneud yn ofynnol i GLL:

- darparu Cynllun Manteision Cymunedol i gynyddu i'r eithaf y manteision a geir o ddarparu mentrau addysgol, cymunedol ac amgylcheddol ar y cyd â darparu'r gwasanaethau trwy'r cyfleusterau;
- sicrhau bod gwasanaethau'n gwella'n barhaus ac y cyrhaeddir safonau perfformiad penodol megis defnyddio gwasanaethau meincnodi trwy'r Gwasanaeth Meincnodi Cenedlaethol;
- adlewyrchu dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; ac
- adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

26 Ar adeg yr adolygiad hwn nid oedd GLL wedi paratoi Cynllun Manteision Cymunedol, ond rydym yn deall ei fod wrthi'n cael ei ddatblygu. Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth ychwaith bod gwasanaethau'n cael eu meincnodi trwy'r Gwasanaeth Meincnodi Cenedlaethol neu wasanaeth cyfatebol yn nwy flynedd gyntaf y contract na chytundeb i wneud hynny ym mhob cyfnod o ddwy flynedd y bydd y contract yn weithredol wedi hynny fel sy'n ofynnol yn ôl y fanyleb. Ym mis

Rhagfyr 2017, fe ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant at yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant gan awgrymu bod GLL yn ymgorffori asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn eu proses benderfynu ar gyfer newidiadau strategol, polisi a gweithredol allweddol. Fodd bynnag, ceir dryswch rhwng y Cyngor a GLL ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am wneud yr asesiadau hyn. Nid ydym wedi cael tystiolaeth o unrhyw asesiadau a wnaed hyd yma. Mae diffyg asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn rhwystr i allu'r Cyngor i ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i anghenion amrywiaeth y boblogaeth. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth ofalus i'w Dyletswydd Cydraddoldeb dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 pan fo penderfyniad yn amlwg yn effeithio ar nifer sylweddol o bobl.

27 Er ein bod yn deall bod effaith newidiadau i brisiau a chynlluniau wedi cael ei thrafod yn y BCP, nid yw dogfennau a chofnodion y cyfarfodydd hyn yn cadarnhau bod effaith newidiadau i brisiau, megis newidiadau i drefniadau aelodaeth iau, neu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau'n fwy cyffredinol, ar gyfranogiad ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi cael ei hystyried a'i harfarnu'n gadarn. Mae'r fanyleb gwasanaethau'n ei gwneud yn ofynnol bod y contractwr yn 'egluro ac yn dangos y rhesymeg dros bolisïau, cynlluniau a mentrau prisio ac yn darparu dadansoddiad o effaith unrhyw newidiadau ar gyfranogiad a grwpiau cwsmeriaid. Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael. Dylai'r Cyngor wella ansawdd cofnodion o benderfyniadau a'r broses o fynd ati'n dryloyw i reoli a goruchwylio'r broses o'u rhoi ar waith yn unol â'r fanyleb.

28 Ar y cyfan, mae ein hadolygiad yn awgrymu y byddai'r Cyngor yn cael budd o werthusiad o ba mor dda y mae ei gontract yn cael ei reoli yn unol â'r fanyleb gwasanaethau a'r trefniadau sydd yn eu lle i ategu hyn.

## Gallai trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad y Cyngor gael eu gwella i helpu'r Cyngor i'w sicrhau ei hun bod y contract gyda GLL yn gynaliadwy ac yn rhoi gwerth am arian

29 Mae gwybodaeth a ddarperir yn adroddiadau monitro chwarterol GLL i'r Bwrdd Cyswllt Prosiect yn dangos bod GLL yn gweithredu'r contract am golled ariannol ar hyn o bryd. Mae Adroddiad Blynyddol GLL 2018-19 yn dweud bod sefyllfa ariannol y gwasanaeth yn siomedig. Mewn ymateb i hyn, fe ddatblygodd tîm rheoli contract lleol GLL gynllun pum mlynedd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019, i ddod â'r contract yn ôl o fewn y sefyllfa ariannol ddisgwyliedig. Er mai GLL sy'n ysgwyddo'r risg ariannol, os na fydd y sefyllfa ariannol yn gwella, mae risg i gynaliadwyedd y contract ac felly i'r manteision ehangach y mae'r gwasanaeth yn eu dwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ogystal ag i enw da'r Cyngor. Byddem yn disgwyl, felly, bod y Cyngor yn monitro'r risg hon yn fanwl ac yn mynd i'r afael â hi.

30 Mae cyfeiriad at y risg hon a 'bod GLL yn methu â chyflawni'r contract cyfreithiol y cytunwyd arno a'r amcanion ariannol dilynol' wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd 2019-20. Fodd bynnag, statws


‘gwyrdd’ a roddwyd iddo ac nid oes unrhyw gamau lliniaru na sylwebaeth wedi’u cynnwys.

31 Roedd adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y contract hamdden yn cynnwys argymhelliad bod: ‘Rhaid i’r rheolwyr sicrhau bod o risgiau a nodwyd yng Nghofrestr Risgiau’r Gyfarwyddiaeth yn cael eu hadolygu a’u diweddaru gan adlewyrchu’r holl ffactorau lliniaru a ffactorau risg. Lle y bo angen rhaid uwchgyfeirio risgiau i’r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) fel a nodir yn y Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau’. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi cael ei wneud.

32 Mae cynllun corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn nodi mai un o’i dargedau allweddol yw cyflawni cynnydd o ddau y cant yn nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am bob 1,000 o bobl lle bydd yr ymwelydd yn cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol. Mae **Arddangosyn 2** isod yn dangos bod ymweliadau â chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Caerdydd (sy’n cynnwys wyth canolfan a reolir gan GLL) yn dal i fod islaw’r nifer a gafwyd yn 2012-13, eu bod islaw’r cyfartaledd ar gyfer Cymru a’u bod yn rhoi Caerdydd yn y 19eg safle yng Nghymru ar gyfer 2018-19.

**Arddangosyn 2: nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn am bob 1,000 o bobl lle bydd yr ymwelydd yn cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol**

Mae’r data perfformiad cenedlaethol diweddaraf yn dangos bod ymweliadau â chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Caerdydd (sy’n cynnwys wyth canolfan a reolir gan GLL) yn 2018-19 yn dal i fod islaw’r nifer a gafwyd yn 2012-13, eu bod islaw’r cyfartaledd ar gyfer Cymru a’u bod yn rhoi Caerdydd yn y 19eg safle yng Nghymru ar gyfer 2018-19.



Ffynhonnell: Data Cymru

33 Nid yw'r perfformiad cymharol hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar berfformiad y Cyngor ar gyfer 2018-19; nid yw'r adroddiad yn darparu unrhyw wybodaeth am sut y mae'r perfformiad yn cymharu â darparwyr eraill ychwaith nac unrhyw wybodaeth am farn defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'r gwasanaeth. Felly mae'n anodd i aelodau a'r cyhoedd gael darlun cyflawn o berfformiad hamdden y Cyngor o'r adroddiad blynyddol ar berfformiad.

34 Rydym yn cydnabod bod y dangosydd hwn yn cwmpasu ystod ehangach o gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol na'r canolfannau a reolir gan GLL. Mae'n beth cadarnhaol bod GLL wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol 2018-19 bod ei wasanaeth hamdden yng Nghaerdydd wedi profi cynnydd o 5.1% mewn defnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan fynd y tu hwnt i darged y Cyngor, sef cynnydd blynyddol o 2%.

35 Dywedodd GLL hefyd ei fod wedi dwyn adenillion cymdeithasol gwerth £13.4 miliwn i Gaerdydd yn erbyn iechyd, llesiant, troseddau ac addysg yn 2018-19; mae hyn yn cyfateb i adenillion cymdeithasol o £2.25 am bob £1.00 a gaiff ei gwario yn y canolfannau hamdden. Mae cyfrifiad GLL o adenillion cymdeithasol yn seiliedig ar gyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn ei ganolfannau. Gellid gwella hyn ymhellach trwy ddarparu data cymharol i ddynodi pa mor dda y mae'r cyfrifiad hwn o adenillion cymdeithasol yn cymharu ag awdurdodau eraill neu gyfleusterau tebyg.

36 Yn ei ymgais i gynnwys defnyddwyr ei wasanaethau, rhoddodd GLL system adborth gan gwsmeriaid 'gwrando 360' ar waith yn 2018, sy'n darparu 'sgôr hyrwyddwr net' ar gyfer pob canolfan hamdden. Mae GLL yn dynodi mai 21% yw sgôr Caerdydd, sy'n uwch na chyfartaleddau cenedlaethol GLL, sef 20%. Fodd bynnag, mae'r sgoriau ar gyfer 2018-19 yn dangos peth amrywiad: mae sgôr pump o wyth canolfan hamdden GLL yng Nghaerdydd yn is na'r cyfartaledd hwn a chaiff y sgôr cyfartalog ei gelu gan sgoriau uchel mewn rhai canolfannau, megis y Ganolfan Hamdden Ddwyreiniol ar 48% a Star ar 41%.

37 Mae GLL wedi ennill achrediad mynediad Quest[4] ar draws ei holl ganolfannau fel a ragnodir gan y Fanyleb Gwasanaethau, ac mae ganddo asesiadau pellach wedi'u rhaglennu yn 2019-20. Mae'r asesiadau'n rhoi cyfrif manwl i bob canolfan o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella sydd o gymorth i oleuo unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

38 Mae Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yn y Cyngor wedi ystyried perfformiad y contract hamdden ddwywaith ers dechrau'r contract ym mis Rhagfyr 2016. Ym mis Rhagfyr 2017, fe graffodd y pwyllgor ar flwyddyn gyntaf gweithrediad y contract ac yna cafodd gyflwyniad gan GLL ym mis Ionawr 2019. Roedd yr Aelod Cabinet

[4] Offeryn ar gyfer gwella'n barhaus yw Quest, sydd wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer rheoli cyfleusterau hamdden a datblygu chwaraeon. Mae'n diffinio safonau ac arfer da yn y diwydiant ac yn rhoi anogaeth i ddatblygu'n barhaus a darparu o fewn fframwaith rheoli sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

dros Ddiwylliant a Hamdden yn bresennol yn y ddau gyfarfod i ateb cwestiynau. Mae cofnodion cyfarfod mis Ionawr 2019 yn dangos bod aelodau wedi ystyried ystod eang o feysydd, gan gynnwys perfformiad a lefelau bodlonrwydd yn ogystal â rhannu pryderon a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau am newidiadau i wasanaethau hamdden a wnaed gan GLL.

39 Mae'n beth cadarnhaol bod y pwyllgor craffu wedi bod yn rhan o adolygu'r gwasanaeth a ddarperir gan GLL. Ar y ddau achlysur, fe ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu at yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Lles gan grynhoi canfyddiadau'r pwyllgor. Fodd bynnag, nid oedd papurau'r Pwyllgor Craffu lle ystyriwyd perfformiad y contract ym mis Ionawr 2019 yn datgelu sefyllfa weithredu GLL na goblygiadau posibl hyn ar gyfer y Cyngor. Nid oedd yr adroddiad esboniadol yn cyfeirio at adroddiad beirniadol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y contract ychwaith. Felly, ni chafodd y pwyllgor craffu'r wybodaeth lawn i alluogi aelodau i herio'r gwasanaeth a'i gynaliadwyedd yn effeithiol ac ystyried a yw'r contract yn rhoi gwerth am arian. Yn wir, roedd llythyr cadeirydd y Pwyllgor Craffu at yr aelod Cabinet yn dilyn y cyflwyniad yn nodi bod gwaith ar y trywydd iawn i sicrhau bod dim cymorthdaliadau gan y Cyngor erbyn 2019-20, a bod dim ymrwymiadau na risgiau newydd i'r Cyngor wedi cael eu hadnabod.

40 Rydym yn cydnabod bod y contract yn nhrydedd flwyddyn ei weithrediad, ond mae'n amlwg nad yw'r trefniadau'n ddigon aeddfed eto i ddarparu'r sicrwydd y mae ei angen i benderfynu a yw'r contract yn rhoi gwerth am arian ac yn cynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor a chyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid ystyried mai dangosyddion ydynt. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau wrth ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?**

- Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).
- Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.
- O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.
- Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.
- Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.
- Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?**

- Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.
- Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.
- Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'?**

- Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.
- Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.
- Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.
- Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol ?**

- Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.
- Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.
- Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol ?**

- Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.
- Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.
- Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.
- Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.

- Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.